| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **30 MEDI 2013** |
| **TEITL:** | **CAIS I AMRYWIO TRWYDDED EIDDO – KINGS ARMS 206, STRYD FAWR, BANGOR** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO** |

## CAIS

Atodir cais i amrywio trwydded eiddo'r Kings Arms, 206 Stryd Fawr , Bangor LL57 1NY, gan H. Evans Bangor Cyf. 6 Llys Cadwaladr, Maesgeirchen, Bangor.
Cyflwynir y cais am ymestyniad i'r oriau gweithgareddau trwyddedig o werthu alcohol, cerddoriaeth wedi ei recordio ac ychwanegu'r hawl i gael cerddoriaeth fyw ar yr eiddo. Gofynnir am ymestyniad hefyd i'r oriau mae'r eiddo yn agored i'r cyhoedd. Lleolir yr eiddo ymysg rhes o fusnesau a siopau ar y Stryd Fawr ym Mangor . Nid yw'r ymgeisydd yn gofyn am unrhyw ymestyniad i'r oriau terfyn; ond yn hytrach gofynnir am yr hawl i agor am 1 o'r gloch y prynhawn yn hytrach na 5 o'r gloch y prynhawn.

Gofynnir am ymestyniad o oriau gweithgareddau trwyddedig ac agor fel a ganlyn -

| **Gweithgareddau trwyddedig** | **Oriau Cyfredol** | **Oriau Arfaethedig Llun - Sad** | **Oriau Arfaethedig Sul** |
|---|---|---|---|
| | | | |
| Cerddoriaeth Fyw | | 13:00 – 01:00 | 13:00 – 00:00 |
| Cerddoriaeth wedi ei recordio | 17:00 – 01:00 | 13:00 – 01:00 | 13:00 – 00:00 |
| Cyflenwi alcohol | 17:00 – 01:00 | 13:00 - 01:00 | 13:00 – 00:00 |
| Oriau agor a chau i'r cyhoedd | 17:00 – 01:30 | 13:00 – 01:30 | 13:00 – 00:30 |
| | | | |

## YMGYNGHORIADAU

Ymgynghorwyd ar y cais a derbyniwyd ymatebion fel a ganlyn –

| **YMATEBION** | **SYLWADAU** |
|---|---|
| Aelodau lleol | Dim sylwadau |
| Cyngor Dinas Bangor | Dim sylwadau |
| Busnesau cyfagos | 2 e bost - gwrthwynebu |
| Heddlu Gogledd Cymru | E bost - dim gwrthwynebiad, amodau |
| Gwasanaeth Tan ac Achub | Llythyr – dim gwrthwynebiad |

## CRYNODEB O'R SYLWADAU A DDERBYNIWYD

### Busnesau cyfagos

Derbyniwyd dau e bost gan un busnes drws nesaf i'r eiddo, a'r llall dros y ffordd. Mae perchnogion y ddau fusnes yn gwrthwynebu ar sail y pedwar amcan trwyddedu - sef

- Atal trosedd ac anrhefn
- Diogelwch y cyhoedd
- Rhwystro niwsans cyhoeddus
- Amddiffyn plant rhag niwed

Nodir gan y gwrthwynebwyr fod yr eiddo yng nghanol y Stryd Fawr ym Mangor, yn y brif ardal siopa, ac nad ydyw oriau presennol y drwydded yn creu unrhyw drafferthion oherwydd nad ydyw'r eiddo yn agor tan 5 yn y prynhawn.
Nodir yn ogystal fod problemau hanesyddol yn gysylltiedig â'r eiddo pan oedd y drwydded o dan reolaeth cwmni /unigolion gwahanol. Roedd yr eiddo yn arfer agor yn y prynhawn bryd hynny ac fe gafwyd llu o broblemau gydag ymddygiad annerbyniol tu allan i'r eiddo trwyddedig yn ystod y prynhawn. Nid oes gan yr eiddo unrhyw le i gwsmeriaid ymgynnull i ysmygu ar wahân i'r Stryd Fawr , o flaen yr eiddo trwyddedig.

**Heddlu Gogledd Cymru**

Nid yw'r Heddlu yn gwrthwynebu'r cais am ymestyniad oriau. Nodir fod yr Heddlu yn gofyn am gynnwys amodau ar y drwydded parthed Goruchwylwyr Drysau.

Gweler manylion llawn y sylwadau a dderbyniwyd ynghlwm a'r adroddiad.

**ARGYMHELLIAD**

Gofynnir i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r Ddeddf Drwyddedu 2003.